# POLISI CYNLLUN GRANTIAU CYNGOR DINAS BANGOR

Nod Cynllun Grantiau Cyngor Dinas Bangor ("CDB") yw:

- Cefnogi gweithgaredd cymunedol – drwy annog ein cymuned i ddiwallu ei anghenion drwy weithredu gwirfoddol, prosiectau hunangymorth, gwelliannau i gyfleusterau lleol neu gymorth gyda digwyddiadau.
- Ehangu mynediad a chyfranogiad – drwy annog mwy o'n trigolion i gymryd rhan mewn grwpiau a phrosiectau lleol, a thrwy gefnogi gweithgareddau sy'n anelu i fod yn agored a hygyrch i bawb sy'n dymuno cymryd rhan.
- Cynyddu sgiliau a chreadigrwydd – drwy gefnogi gweithgareddau sy'n helpu i ddatblygu mudiadau'n trigolion a'n cymunedau, a gwella sgiliau a chodi safonau.
- Gwella ansawdd bywyd – drwy gefnogi prosiectau lleol sy'n gwella cyfleoedd, iechyd, lles, amgylchedd neu gyfleusterau lleol i'n trigolion, yn enwedig i'r rhai mwyaf difreintiedig yn y gymdeithas.
- Hyrwyddo bioamrywiaeth – drwy gyfrannu at amcanion gwyrddu a bioamrywiaeth Cyngor y Ddinas.

Er mwyn cael eich ystyried am grant, rhaid i chi ddangos sut mae eich prosiect yn bodloni o leiaf un o'r nodau uchod.

Mae Cyngor Dinas Bangor eisiau cefnogi:

- Prosiectau sy'n dod â phobl ynghyd
- Prosiectau sy'n cyflwyno rhywbeth newydd i'r gymuned
- Prosiectau sy'n helpu neu'n creu cyfleoedd i grwpiau ac unigolion difreintiedig
- Prosiectau sy'n hyrwyddo'r Ddinas
- Sefydliadau sydd ag incwm blynyddol o lai na £25,000

**Y CYMORTH ARIANNOL SYDD AR GAEL**

- Rhoddion ar gyfer grwpiau cymunedol bach: i hyd at £2,000.
- Grantiau cymunedol: ar gyfer ceisiadau rhwng £2,000 ac uchafswm o £10,000.
- Cronfa Prosiectau: mewn amgylchiadau eithriadol bydd CDB yn ystyried ariannu prosiectau uwchlaw £10,000 (fodd bynnag, rhaid pwysleisio, oherwydd cyllid cyfyngedig, bod cyllid o'r fath yn brin iawn).

Rhaid cydnabod cefnogaeth ariannol gan Gyngor Dinas Bangor ar bob deunydd cyhoeddusrwydd gan gynnwys cyfryngau print, electronig a darlledu.

**PWY ALL WNEUD CAIS**

Mae sefydliadau gwirfoddol a chymunedol hefyd yn cael eu hadnabod fel sefydliadau 'trydydd sector', gan eu bod ar wahân i'r sectorau cyhoeddus a phreifat. Maent yn sefydliadau a arweinir gan werth ac wedi'u sefydlu at ddibenion cymdeithasol yn hytrach na cheisio elw, ac maent yn ail-fuddsoddi unrhyw elw i helpu i fynd i'r afael â phroblemau sy'n wynebu pobl a'u hamgylcheddau.

Gan fod y grantiau sydd ar gael yn dod o arian cyhoeddus, mae'n rhaid i CDB fod yn ofalus iawn wrth weinyddu'r cynllun. Felly, dim ond y canlynol gaiff gyflwyno ceisiadau:

- Grwpiau cymunedol sydd â chyfansoddiad
- Elusennau a gyfansoddwyd heb eu cofrestru
- Elusennau cofrestredig
- Sefydliadau Corfforedig Elusennol
- Cwmnïau Cydweithredol
- Cymdeithasau Cyfeillgar
- Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus
- Cwmnïau Buddiant Cymunedol cyfyngedig drwy warant gydag aelodaeth fawr
- Cwmnïau cyfyngedig drwy warant gydag aelodaeth fawr
- Grwpiau cymunedol lleol heb gyfansoddiad

Ni allwn dderbyn ceisiadau gan:

- Unigolion (ac eithrio mewn achosion eithriadol at ddibenion penodol iawn)
- Unig Fasnachwyr

- Unrhyw fath o sefydliadau a/neu gwmnïau sy'n gwneud elw (y Sector Preifat)
- Sefydliadau statudol (y sector cyhoeddus)
- Sefydliadau mae’r Cyngor yn credu eu bod mewn iechyd ariannol gwael
- Sefydliadau mae’r Cyngor yn credu fod ganddynt strwythurau llywodraethu gwael
- Sefydliadau nad ydynt yn cynnal Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol lle na all yr aelodaeth fynychu a phleidleisio ar drafodion
- Sefydliadau heb atebolrwydd i aelodaeth ehangach

**Y RHEOLAU**

Fel gyda phob corff sy'n rhoi grantiau, rhaid i'r Cyngor gael rheolau penodol i sicrhau bod yr arian a rennir yn cael ei ddefnyddio'n gyfrifol. Dwy reol sy'n berthnasol bob amser i bob cynllun grant:

- ni chaiff unrhyw unigolyn a/neu sefydliad wneud cais am gyllid grant fwy nag unwaith mewn unrhyw un o flynyddoedd ariannol Cyngor Dinas Bangor, a
- rhaid gwneud pob cais ar ffurflen gais berthnasol Cyngor Dinas Bangor.

Cyn gwneud cais, argymhellir eich bod yn darllen y canllawiau a'r telerau ac amodau llawn ar gyfer y grant perthnasol. Os ydych yn cael anhawster i ddeall y dogfennau, mae croeso i chi ffonio’r Cyfarwyddwr Dinesig neu ei gynrychiolydd ar 01248 352421 neu anfon e-bost at townclerk@bangorcitycouncil.com .

**BETH ALL Y GRANT DALU AMDANO A BETH NA ALL**

Mae'n anodd ymdrin â phob posibilrwydd a sefyllfa ond dyma'r mathau o bethau y bydd grant yn gymwys ar ei gyfer a ddim yn gymwys:

Beth fydd grant yn talu amdano:

- Teganau addysgol a gemau
- Llogi offer
- Perfformiadau mewn digwyddiad
- Offer TG
- Costau prynu a phlannu planhigion
- Deunyddiau cyhoeddusrwydd i’w defnyddio yn eich prosiect
- Adnewyddu adeiladau
- Hyfforddiant
- Costau trafnidiaeth
- Diweddaru offer am resymau iechyd a diogelwch

- Llogi man cyfarfod

Beth na fydd grant yn talu amdano:

- Costau a wynebwch cyn cael cadarnhad grant
- Unrhyw gostau wrth lunio'ch cais
- Costau rhedeg o ddydd i ddydd (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, cyfleustodau, treth y cyngor, rhent ac yswiriant)
- Ffioedd proffesiynol
- Costau cynlluniau wrth gefn
- Eitemau a gwasanaethau sy'n bennaf o fudd i unigolion (er enghraifft, offer nad yw'n cael ei rannu)
- Benthyciadau, morgeisi neu daliadau llog
- Costau staff parhaus (gan gynnwys cyflogau staff parhaol neu dymor sefydlog)
- Atgyweiriadau a cynnal a chadw arferol ar adeiladau

Nid yw'r uchod yn derfynol ac os oes gennych unrhyw gwestiwn ynghylch a yw eich syniad arfaethedig yn gymwys i gael cymorth grant, cysylltwch â Chyfarwyddwr y Ddinas, a fydd yn hapus i gynnig arweiniad.

**YR ASESIAD**

Bydd Cyngor Dinas Bangor yn ystyried eich cais yn erbyn meini prawf penodol, megis:

- A oes angen eich prosiect o fewn y Ddinas?
- A yw'ch prosiect yn dyblygu unrhyw fath o ddarpariaeth sy'n bodoli'n barod ym Mangor, boed yn llawn neu yn rhannol?
- Pwy fydd yn elwa o'ch prosiect?
- Ydy'ch prosiect yn gynhwysol ac ar gael i bawb?
- Sut fydd eich prosiect yn cyflawni'n nodau fel yr amlinellwyd uchod?
- Beth yw cyfanswm cost eich prosiect a faint o arian mae eich sefydliad yn ei roi tuag at y gost? Nid yw hyn yn ofyniad ar gyfer derbyn grant ond mae'n dangos ymrwymiad i'r prosiect.
- A fydd eich prosiect yn rhoi gwerth am arian i'r gymuned?

Bydd pob cais yn cael ei asesu gan Gyngor Dinas Bangor mewn cyfarfod llawn o'r cyngor cyn gynted â phosibl ar ôl i'ch cais ddod i law, gan ddefnyddio dulliau safonol, pwysedig o asesu. Bydd swm yr arian a gynigir i geisiadau llwyddiannus ar draws pob grant a gynigir gan CDB yn amrywio mewn unrhyw un flwyddyn ariannol yn dibynnu ar y swm ac ansawdd y cais a faint o arian sydd ar gael ar yr adeg honno.

Yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, gall Cyngor Dinas Bangor arfer ei hawl i ddyfarnu Grant

rhannol, yn dibynnu ar y wybodaeth y byddwch wedi'i darparu neu heb ei darparu.

Rhaid gwneud pob cais ar y ffurflenni cais swyddogol priodol, sydd ar gael ar wefan Cyngor Dinas Bangor, ynghyd â chanllawiau a thelerau ac amodau llawn.

Gall y ddogfennaeth a ddarperir gan Gyngor Dinas Bangor i'ch arwain drwy'r broses o wneud cais am grant fod yn hirfaith ar adegau ac rydym yn argymell eich bod yn edrych arni ar-lein gymaint â phosibl, neu'n arbed y dogfennau i ddyfais electronig sy'n gallu dangos yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch.

*Mae'r canllawiau cyffredinol hyn ar gyfer holl grantiau Cyngor Dinas Bangor yn disodli pob canllaw arall a gyhoeddwyd.*

*Chwefror 2025*